

DEALL DATA ASESU: CANLLAW I RIENI

Dylai'r wybodaeth isod eich helpu i ddadansoddi'r dada asesu sydd ar Borth Rhieni'r eILP.

<b>Presenoldeb</b>	Rhoddir data presenoldeb fel canran. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod presenoldeb yn darparu'r arwydd cliraf o lwyddiant yn y chweched dosbarth. Mae ymchwil yn dangos y gall gostyngiad mewn presenoldeb o 10% arwain at danberfformiad gan o leiaf un radd ar Safon Uwch neu BTEC Lefel 3. Dylai pob dysgwr ymdrechu i gael 100% bresenoldeb ac mae unrhyw beth yn is na 95% yn annerbyniol.
<b>Cyflawniad</b>	Dylai'r graddau yma adlewyrchu perfformiad cyffredinol y dysgwr, yn seiliedig ar yr holl asesiadau maent wedi cwblhau hyd yn hyn, ym mhob un o'u cyrsiau. Mae'r radd cyflawniad ar gyfer cyrsiau yn adlewyrchu'r meini prawf graddio allanol a ddefnyddir gan y cyrff dyfarnu e.e. CBAC, BTEC ayyb: <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Lefel UG: Graddau A-E ar gyfer cwrs UG (mae gradd U yn golygu 'di-ddosbarth');</li> <li>▪ Lefel A: Graddau A*-E ar gyfer cwrs Lefel A (mae gradd U yn golygu 'di-ddosbarth');</li> <li>▪ Cyrsiau Lefel 2 a 3 BTEC: Llwyddo, Teilyngdod, Rhagoriaeth, Rhagoriaeth*; a</li> <li>▪ Chyrsiau TGAU A*-G (mae gradd U yn golygu 'di-ddosbarth').</li> </ul>
<b>Ymdrech</b>	Mae hon yn radd 'byw' ac yn newid o un cyfnod asesu (bob hanner tymor) i'r llall. Mae graddau ymdrech yn amrywio o 1 i 5, gydag 1 yn ardderchog a 5 yn wael.
<b>Gradd Target</b>	Mae'r radd hon y dod o'r system gwerth ychwanegol ALPs sy'n cael ei defnyddio gan bob ysgol Chweched Dosbarth yng Nghaerdydd ac mae'n system gwerth ychwanegol a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae'r radd darged yn seiliedig ar gyfartaledd sgôr TGAU'r dysgwr wrth gychwyn yn y Coleg. Mae perfformiad TGAU yn cael ei ystyried fel un o'r rhagfynegyddion gorau o gyrhaeddiad ar Lefel A ac UG.
<b>Math o Asesiad</b>	Mae hyn yn ymwneud â nifer yr asesiadau ym mhob hanner tymor. Dylai pob cwrs UG, Lefel A a TGAU cwblhau o leiaf dau asesiad 'sylweddol' bob hanner tymor. Mae'r rhain yn cael eu graddio a'u cofnodi ar yr eILP. Dylai un asesiad fesul uned cael ei gynnwys ar yr eILP ar gyfer cyrsiau BTEC. Mae asesiadau 'sylweddol' yn adlewyrchu gofynion allanol y cwrs. Mae'r rhan fwyaf o asesiadau 'sylweddol' yn cymryd yr un ffurf a'r cwestiynau ar bapurau arholiad allanol y gorffennol, er enghraifft traethodau neu gwestiynau ddata. Mae asesiadau ar gyfer unedau BTEC ar gyfer Lefel 2 a 3 yn debygol o gynnwys tasgau mwy amrywiol megis cyflwyniadau, adroddiadau ffurfiol ac ati. Mae asesiadau ar gyfer cyrsiau TGAU yn debygol o fod yn gwestiynau o gyn papurau arholiad.